# CYNGOR SIR

# DYDD MAWRTH, 23 CHWEFROR 2016

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd P. Hughes-Griffiths (Chair)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | D.J.R. Bartlett | S.M. Caiach | C.A. Campbell |
| J.M. Charles | A.P. Cooper | A. Davies | G. Davies |
| I.W. Davies | J.A. Davies | S.L. Davies | T. Davies |
| W.R.A. Davies | T.T. Defis | T. Devichand | E. Dole |
| J.S. Edmunds | D.C. Evans | H.A.L. Evans | L.D. Evans |
| W.J.W. Evans | W.T. Evans | A.D. Harries | C.P. Higgins |
| W.G. Hopkins | J.K. Howell | I.J. Jackson | A. James |
| J.D. James | D.M. Jenkins | A.W. Jones | G.O. Jones |
| H.I. Jones | T.J. Jones | W.J. Lemon | A. Lenny |
| M.J.A. Lewis | D.J.R. Llewellyn | K. Madge | S. Matthews |
| A.G. Morgan | E. Morgan | J. Owen | P.A. Palmer |
| D. Price | D.W.H. Richards | B.A.L. Roberts | A.D.T. Speake |
| L.M. Stephens | T. Theophilus | E.G. Thomas | G. Thomas |
| G.B. Thomas | R. Thomas | S.E. Thomas | J. Tremlett |
| D.E. Williams | J. Williams | J.E. Williams | J.S. Williams |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | | |
|---|---|---|
| Mr M. James | - | Y Prif Weithredwr |
| Mr C. Moore | - | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mr J. Morgan | - | Cyfarwyddwr Cymunedau |
| Ms R. Mullen | - | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd |
| Mr R. Sully | - | Cyfarwyddwr Addysg a Phlant |
| Mr P. Thomas | - | Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Ms W. Walters | - | Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Ms L. Rees Jones | - | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Mr O. Bowen | - | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cyllidol |
| Mr K. Thomas | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 12.22 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T. Bowen, D.M. Cundy, D.B. Davies, P. Edwards, M. Gravell, P.M. Hughes, J.P. Jenkins, H.B. Shepardson, J. Thomas, K.P. Thomas, M.K. Thomas ac W.G. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Councillor | Minute Number | Nature of Interest |
|---|---|---|
| C.P. Higgins | 6 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2016/17 tan 2018/19 | Mae'n gwneud gwaith i Gyngor ar Bopeth Cymru. |
| S.L. Davies | 6 – Strategaeth Cyllideb Refeniw | Model darparu arall ar gyfer Chwaraeon, |

| | | |
|---|---|---|
| | 2016/17 tan 2018/19 (Tudalen 44) | Hamdden a'r Theatrau (2014). |
| A.W. Jones | 6 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2016/17 tan 2018/19 | Mae'n un o Ymddiriedolwyr Lles Glowyr Rhydaman sy'n prydlesu darn o dir gan y Cyngor Sir. |
| J.D. James | 6 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2016/17 tan 2018/19 (Tudalen 44) | Model darparu arall ar gyfer Chwaraeon, Hamdden a'r Theatrau (2014). |
| T. Devichand | 6 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2016/17 tan 2018/19 (Tudalen 44) | Model darparu arall ar gyfer Chwaraeon, Hamdden a'r Theatrau (2014) - Cadeirydd Pwyllgor Lles Dafen. |
| T. Devichand | 8 Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai am 2016/17. | Landlord |
| J. Edmunds | 8 Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai am 2016/17. | Landlord |
| T. Davies | 7 - Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd: 2016/17 – 2020/21. | Cadeirydd Ymddiriedolwyr Oriel Myrddin. |
| A. Lenny | 7 - Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd: 2016/17 – 2020/21. | Un o Ymddiriedolwyr Oriel Myrddin. |
| A. Lenny | 6 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2016/17 tan 2018/19. | Mae'n gwasanaethu ar y grŵp a ffurfiwyd i roi sylw i ddyfodol Caerfyrddin. |
| S.E. Thomas | 7 - Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd: 2016/17 – 2020/21 | Un o Ymddiriedolwyr Oriel Myrddin. |
| S.M. Allen | 7 - Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd: 2016/17 – 2020/21 | Un o Ymddiriedolwyr Oriel Myrddin. |
| A. James | 7 - Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd: 2016/17 – 2020/21 | Un o Ymddiriedolwyr Oriel Myrddin. |
| K. Madge | 6 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2016/17 tan 2018/19<br>7 - Y Rhaglen Gyfalaf | Ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. |

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Dymunodd y Cadeirydd wellhad buan i'r Cynghorwyr P.M. Edwards a J. Thomas gan iddynt fod yn dost a chael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.
- Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Cynghorydd D.J.R. Llewellyn a Mrs Llewellyn gan eu bod wedi derbyn Tlws Coffa Robina Elis-Gruffydd, sef tlws a roddir am gyfraniad arbennig yn y gymuned yn lleol yng Ngogledd Sir Benfro a Gorllewin Sir Gaerfyrddin.
- Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Cyngor am drefniadau'r Wythnos Gymraeg a fyddai'n cael ei chynnal yng Nghaerfyrddin rhwng dydd Sadwrn 27ain Chwefror a dydd Sadwrn 5ed Mawrth 2016, ac estynnodd wahoddiad cynnes i'r holl aelodau ddod i'r gwahanol gweithgareddau

## 4. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2016/2017 I 2018/19;

(NODER: Yr oedd y Cynghorwyr C.P. Higgins, S.L. Davies, A.W. Jones, J.D. James, T. Devichand, A. Lenny a K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a bu iddynt aros yn y cyfarfod tra oedd dan sylw)

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 1af Chwefror, 2016 (gweler Cofnod 14), wedi ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw 2016/17 tan 2018/19 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, ar ran y Bwrdd Gweithredol, lle bu'n amlinellu cefndir y cynigion cyllidebol oedd gerbron y Cyngor, gan gynnwys y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Setliad Llywodraeth Cymru, adborth am yr ymgynghoriad ynghylch y gyllideb, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am dwf ac am ddata dilysu. Dywedodd fod yr Awdurdod wedi bod yn wynebu sefyllfa gyllido anodd ers nifer o flynyddoedd. Ychwanegodd fod yr Awdurdod yn cydnabod bod angen gwneud pethau mewn modd gwahanol ynghyd â blaenoriaethu sut yr oedd yn gwario ei adnoddau mwyfwy prin, a bod yr Awdurdod wedi pennu cyllideb gytbwys bob tro gan gynnal, ar yr un pryd, safonau'r gwasanaethau i raddau helaeth iawn. Unwaith eto yn achos 2016/17, yr oedd yr Awdurdod wedi cael setliad ar gyfer blwyddyn yn unig, ac felly yr oedd hi'n deg tybio y byddai'r cwtogi hwn ar gyllid Llywodraeth Leol a setliadau Llywodraeth Cymru, na welwyd mo’i debyg o’r blaen, yn parhau. Felly byddai'n rhaid i'r Awdurdod ddal i hoelio ei sylw ar arbedion effeithlonrwydd neu leihau'r costau er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol a bod modd pennu cyllidebau cytbwys i'r dyfodol.

Dywedodd fod y Cyngor wedi cael setliad dangosol 2016/17 a oedd 1% yn llai, ond na fyddai'n cael gwybodaeth am y setliad terfynol tan 2il Mawrth, a fyddai'n amodol ar gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 9fed Mawrth. Felly, yn unol ag argymhelliad 1.3 yn yr adroddiad, byddai angen i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol roi gwybodaeth i gyfarfod y Cyngor ar 10fed Mawrth am unrhyw newidiadau i'r setliad. Er nad oedd y setliad terfynol wedi ei gyhoeddi hyd yn hyn, braf oedd nodi bod y setliad dros dro, a oedd 1% yn llai, yn fwy ffafriol nag yr oeddid wedi ei ragweld. Yr oedd hynny wedi galluogi'r Awdurdod i ailystyried rhai o'i gynigion cyllidebol gwreiddiol, gan addasu rhai o'r ffigurau oedd ynddynt, gan gynnwys addasu at ddibenion dilysu arbedion effeithlonrwydd nad oeddynt wedi eu clustnodi, codiad cyflog posibl, a'r diogelwch oedd ar gael i'r ysgolion.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod setliad dangosol Sir Gaerfyrddin 1% yn llai, ond tanlinellodd y byddai'r lleihad gwirioneddol yn sylweddol fwy ar ôl ystyried effeithiau chwyddiant a'r beichiau newydd. O gofio mai cyllid gan Lywodraeth Cymru oedd yn cyllido bron 76% o wariant net y Cyngor, yr oedd pob 1% o doriad yn cyfateb i £2.5 miliwn ac yr oedd effaith toriad o'r fath ar gynlluniau gwariant y Cyngor yn amlwg i bawb. Fodd bynnag, er y byddai setliad yr Awdurdod yn llai, yr oedd Llywodraeth Cymru, wrth gyhoeddi setliad Cymru, wedi dyrannu £35 miliwn i ddiogelu cyllidebau ysgolion a £21 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol. Yr oedd cyfran y Cyngor o'r cyllid hwnnw wedi ei drosglwyddo i'r meysydd gwasanaeth perthnasol gan olygu bod yr ysgolion yn cael £2.1 miliwn a gofal cymdeithasol yn cael £1.3 miliwn.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y newidiadau sylweddol eraill yn y setliad yn cynnwys trosglwyddo'r Grant Cytundeb Canlyniadau i'r Grant Cynnal Refeniw, ynghyd â lleihad llai na'r disgwyl mewn grantiau penodol eraill, er enghraifft, yr oedd Grant yr Amgylchedd 6% yn llai yn unig yn hytrach na 25% yn llai fel yr oeddid yn ei gynnig yn wreiddiol. Fodd bynnag, nid oedd manylion rhai o'r grantiau wedi eu cyhoeddi hyd yn hyn, a oedd yn golygu bod elfen o risg o ran strategaeth y gyllideb.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at ei ddatganiad cynharach ynghylch bod y cyhoeddiad am y setliad yn berthnasol am flwyddyn yn unig, ac nad oedd dim rhagamcanion wedi eu darparu ynghylch setliadau'r blynyddoedd dilynol. Ychwanegodd fod y sefyllfa hon yn ei golygu ei bod hi'n anodd i'r Awdurdod ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig a chynnwys mwy o risg ariannol yn y cynllun. Yr oedd yn rhaid i'r Awdurdod - wrth ymateb i'r lleihad parhaus o ran y cyllid, ynghyd â sicrhau ar yr un pryd fod y cynnydd o ran y dreth gyngor cyn lleied ag y bo modd - ddal ati i chwilio am arbedion effeithlonrwydd o ran y modd yr oedd yn darparu gwasanaethau ac, mewn rhai achosion, o ran lefel y gwasanaethau. Cefndir hyn oll oedd bod rhyw £51 miliwn o wariant cylchol wedi ei naddu o wariant blynyddol y Cyngor yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac y byddai'r duedd honno'n parhau dros y tair blynedd nesaf gan roi bod i leihad pellach o £34 miliwn, gan gymryd bod lleihad o hyd o ran y cyllid i lywodraeth leol yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Hefyd cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at yr ymgynghoriad helaeth oedd wedi ei gynnal ynghylch y gyllideb gan ddweud bod y Bwrdd Gweithredol, yn sgil yr ymgynghoriad ac yn sgil bod yr Awdurdod wedi cael gwell setliad na'r disgwyl, wedi argymell nifer o newidiadau i'r gyllideb gychwynnol, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, ar gyfer yr Adrannau Addysg, Cymunedau a'r Amgylchedd.

Yn ogystal, yn sgil y pryderon oedd wedi eu lleisio'n ddiweddar ynghylch y lleihad arfaethedig o £100,000 o ran y cyllid fyddai ar gael i gyrff gwirfoddol, yn enwedig Cyngor ar Bopeth, yr argymhelliad oedd tynnu'r lleihad arfaethedig yn ôl am y tro hyd nes y byddid wedi cwblhau'r arolwg o'r trydydd sector. Petai'r cynnig hwnnw'n dderbyniol gan y Cyngor, byddai'r diffyg o £100,000 o ganlyniad i hynny yn cael ei gyllido'n rhannol gan addasiad o ran y cyllid gofynnol ar gyfer ERW, gan symudiadau rhwng grantiau, ac yn rhannol drwy ddefnyddio arian o'r gweddillau cyffredinol.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y Bwrdd Gweithredol wedi argymell hefyd fod y codiad cyflog o 1% oedd yn y gyllideb wreiddiol yn dod i rym ym mis Ebrill, cyn y setliad cenedlaethol ar gyfer graddau cyflog staff nad ydynt yn addysgu.

Eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod tri amcan clir mewn golwg gan y Bwrdd Gweithredol drwy gydol y broses pennu cyllideb sef:-

1. Paratoi'r Awdurdod ar gyfer unrhyw ostyngiadau mewn cyllid a allai ddod,
2. Sicrhau hyd y gellid fod lefelau a safonau'r gwasanaethau'n cael eu cynnal, a
3. Gan gydnabod bod ein dinasyddion yn ei chael hi'n anodd yn yr hinsawdd sydd ohoni, lleihau cymaint â phosibl ar unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor.

Gyda golwg ar sicrhau bod cydbwysedd teg o ran yr amcanion uchod, yr oedd y Bwrdd Gweithredol yn argymell bod y Dreth Gyngor yn codi 3.85%. Fodd bynnag dylai'r Cyngor gofio, yng nghyswllt y gyllideb uchod, fod y gweddillau wedi eu gadael, unwaith eto, ar y lefel isaf y gallai'r Cyfarwyddwr ei chefnogi, ac yr oeddid wedi rhagdybio y byddai arbedion effeithlonrwydd sylweddol.

I gloi, canmolodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol waith diflino'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r holl swyddogion oedd yn gysylltiedig â llunio'r gyllideb, gan gyfeirio at eu cymorth o ran cynnal perfformiad y Cyngor a darparu gwasanaethau am gost resymol i'r trethdalwr.

Yna cynigiodd argymhellion y Bwrdd Gweithredol o ran Strategaeth y Gyllideb am 2016/15, o ran y cynnydd o 3.85% yn y Dreth Gyngor, ac o ran cymeradwyo'r cynllun ariannol tymor canolig fel sylfaen ar gyfer cynllunio ariannol i'r dyfodol. Eiliwyd y cynnig.

Cynigiwyd ac eiliwyd y gwelliannau canlynol:-

- Cyllideb Ddirprwyedig Ysgolion - Gohirio'r arbedion arfaethedig o £3.4 miliwn am flwyddyn er mwyn helpu'r athrawon a'r llywodraethwyr i glustnodi arbedion effeithlonrwydd heb effeithio'n andwyol ar addysg y plant,
- Y Gwasanaethau Cynhwysiad - Anghenion Addysgol Arbennig (2014) (gweler tudalen 76) - gwaredu'r toriad arfaethedig o £200,000 gan y byddai'r cynnig yn effeithio ar bobl ifanc agored i niwed oedd angen y gefnogaeth honno, ac yn effeithio'n ddiamheuaeth ar ragolygon a chanlyniadau'r bobl ifanc hynny,
- Lleihau'r ddibyniaeth ar gontractwyr allanol lle bo modd rheoli'r gwasanaeth yn fwy effeithlon ac effeithiol yn fewnol,
- Codi £10 miliwn o'r arian wrth gefn er mwyn adeiladu 130 o dai cyngor newydd (Y Cyfrif Refeniw Tai) dros ddwy flynedd gan ddechrau yn 2017/18.

Gan ymateb i'r gwelliant rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ganlynol i'r Cyngor o ran mater cyllideb ddirprwyedig ysgolion (gweler tudalen 62 yn yr

adroddiad). Er bod cynnig cychwynnol y Bwrdd Gweithredol yn cynnwys torri £5.5 miliwn o'r gyllideb bresennol o £109.708 miliwn ar gyfer 2016/17, yr oedd y cynnig hwnnw wedi ei newid bellach gan roi bod i gyllideb oedd bron yn sefyll yn stond ac yn niwtral o ran cyllid ac a fyddai'n cael ei chyllido trwy'r £2.1 miliwn a gawsid gan Lywodraeth Cymru ynghyd â dilysiad ychwanegol o ran £3.4 miliwn. Dywedodd y byddai'n rhaid i'r Cyngor, wrth ystyried y gwelliant, fod yn glir ynghylch a oedd yn cynnwys £3.4 miliwn ychwanegol o gyllid ar gyfer addysg, ar ben yr hyn oedd wedi ei gynnig eisoes, ac, os felly, a fyddid yn cael y cyllid ychwanegol drwy gynyddu'r dreth gyngor neu drwy leihau rywle arall yn y gyllideb er mwyn cael cyllideb gytbwys.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wybod i'r Cyngor petai'r cynigion ar gyfer cyllideb ddirprwyedig ysgolion a'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu cyllido drwy gynyddu'r Dreth Gyngor, byddai'n rhaid cynyddu'r ardoll treth gyngor ryw 4-5%.

Rhoddodd y cynigydd amlinelliad i'r Cyngor o'r rhesymau dros y gwelliannau ynghyd â'r manylion cyllido o blaid y cynnig i wrthbwyso'r toriad gwirioneddol o £3.4 miliwn yng nghyllideb yr ysgolion. Yr oedd y rhain yn cynnwys defnyddio cyfran o'r gost ychwanegol o ran Ymddeoliad Gwirfoddol Cynnar yr oedd ef yn rhagweld a fyddai'n deillio o hyn (£1.5 miliwn), defnyddio £500,000 o'r £7.5 miliwn a gawsid yn y setliad refeniw oedd yn fwy na'r hyn a ddisgwylid, cynyddu'r dreth gyngor 10 ceiniog yr wythnos ar gyfer eiddo ym mand D gan roi bod i £800,000 ychwanegol, arbedion o ran cynnal a chadw tiroedd (£600,000) ynghyd â defnyddio, petai angen, gronfeydd cyffredinol fel cyfraniad unwaith yn unig. Hefyd rhoddwyd gwybod i'r Cyngor y byddid yn gofyn am bleidlais gofnodedig ar ôl ystyried y gwelliannau.

Bu i'r Prif Weithredwr atgoffa'r Cyngor o'i gyngor cynharach sef bod yn rhaid, wrth ystyried y gwelliannau, bennu cyllideb gytbwys ac y byddai angen i'r Cyngor, wrth bleidleisio ar y gwelliannau, fod yn fanwl ynghylch beth oedd yn y gyllideb. Ar hyn o bryd, pe byddid yn mabwysiadu'r gwelliant, byddai'n golygu bod y Cyngor yn pennu cyllideb anghytbwys.

Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i'r cynigion cyllido drwy ddweud bod gorwariant ar hyn o bryd o ran y Gronfa Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol, y bwriedid defnyddio cyfran ohoni, ac y byddid yn cyllido unrhyw faich ychwanegol o'r Gronfa Ymddeol Gorfforaethol. Byddai'r cynnig i godi'r dreth gyngor 10 ceiniog yn codi dim ond £400,000 yn ychwanegol, ac yna yr oedd potensial y cynnig ynghylch cynnal a chadw tiroedd. Felly ni fyddai'r cynigion yn darparu'r cyllid gofynnol. Nid oedd defnyddio cronfeydd wrth gefn i gyllido'r diffyg yn gynaliadwy gan eu bod ar y lefel ddarbodus isaf ar hyn o bryd, ac ni fyddai hynny ond yn gohirio'r lleihad o £3.4 miliwn yn y pen draw. Felly dywedodd ei fod yn ystyried y byddai'r gwelliannau presennol yn golygu bod y Cyngor yn pennu cyllideb anghytbwys, yn groes i'r gyfraith.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr petai'r Cyngor yn cymeradwyo'r gwelliannau y byddai'r Cyngor, fel yr amlinellwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, yn pennu cyllideb anghytbwys ac y byddai'n rhaid i'r Cyfarwyddwr, yn rhinwedd bod yn Swyddog A151 y Cyngor, yn gorfod ystyried defnyddio ei bwerau statudol i atal hynny rhag digwydd.

Yn sgil cael cais gan fwy na deg o aelodau ac yn unol â Rheol 16.4 o Weithdrefnau'r Cyngor, cynhaliwyd pleidlais gofnodedig gyda'r pleidleisiau yn cael eu bwrw fel a ganlyn:-

O blaid y Gwelliant (17)

Y Cynghorwyr D.J.R. Bartlett, S.M. Caiach, A.P. Cooper, S.L. Davies, T. Davies, T. Devichand, J.S. Edmunds, D.C. Evans, C.P. Higgins, J.D. James, A.W. Jones, K. Madge, S. Matthews, E. Morgan, B.A.L. Roberts, R. Thomas a J. Williams.

Yn erbyn y Gwelliant (44)

Y Cynghorwyr S.M. Allen, C.A. Campbell, J.M. Charles, A. Davies, G. Davies, I.W. Davies, J.A. Davies, W.R.A. Davies, T.T. Defis, E. Dole, H.A.L. Evans, L.D. Evans, W.J.W. Evans, W.T. Evans, A.D. Harries, W.G. Hopkins, J.K. Howell, P. Hughes-Griffiths, I.J. Jackson, A. James, D.M. Jenkins, G.O. Jones, H.I. Jones, T.J. Jones, W.J. Lemon, A. Lenny, M.J.A. Lewis, D.J.R. Llewellyn, A.G. Morgan, J. Owen, P.A. Palmer, D. Price, D.W.H. Richards, A.D.T. Speake, L.M. Stephens, T. Theophilus, E.G. Thomas, G.B. Thomas, G. Thomas, S.E. Thomas, J. Tremlett, D.E. Williams, J.E. Williams a J.S. Williams.

Ymataliadau (0)

**PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r Gwelliant i'r Cynnig.**

Yna pleidleisiodd y Cyngor ar y Cynnig.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynnig ynghyd â:**

**6.1 Cymeradwyo Strategaeth Cyllideb 2016/17, yn amodol ar y gwelliannau canlynol:-**

**6.1.1 Bod y lleihad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd, draenio tir a diogelu'r arfordir yn cael ei dynnu'n ôl ym mhob un o'r tair blynedd, sef cyfanswm o £118,000.**

**6.1.2 Bod y lleihad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer cynnal a chadw'r seilwaith priffyrdd yn cael ei dynnu'n ôl o flwyddyn ariannol 2016-2017 gan gostio £512,000.**

**6.1.3 Bod y lleihad arfaethedig yng Nghyllideb y Gwasanaethau Glanhau a Gorfodi Materion Amgylcheddol yn cael ei dynnu'n ôl ym mhob un o'r tair blynedd ar gost o £252,000.**

**6.1.4 Bod y cynnig i gyflwyno ffi am Gludiant o'r Cartref i'r Coleg yn cael ei ddal yn ôl tan flwyddyn ariannol 2018-2019.**

**6.1.5 Bod y cynnig i gynyddu cost Pryd ar Glud £1.00 o £3.70 i £4.70 yn cael ei gyflwyno'n raddol dros dair blynedd, gan olygu bod arbedion blwyddyn 1 £38,000 yn llai.**

**6.1.6 Bod yr arbedion arfaethedig o ran Gofal Cyfnod Byr/Seibiant ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael eu tynnu'n ôl yn gyfan**

**gwbl, gan olygu bod £50,000 yn llai o arbedion.**

**6.1.7 Bod buddsoddiad ychwanegol yn y ddau faes gwasanaeth penodol canlynol:-**

**6.1.7.1 Y Gwasanaethau Ieuenctid: £50,000 i'r Gwasanaethau Ieuenctid i hybu'r gallu proffesiynol ac i gryfhau'r sgiliau arbenigedd o ran diogelu pobl ifanc agored i niwed.**

**6.1.7.2 Cynnal a Chadw'r Seilwaith Priffyrdd: £200,000 i'w ddefnyddio ar gyfer benthyca darbodus i ariannu £2.4 miliwn o wariant cyfalaf ar y rhwydwaith priffyrdd a'r seilwaith ategol yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.**

**6.1.8 Bod y lleihad arfaethedig o £100,000 o ran y cyllid i gyrff gwirfoddol yn cael ei dynnu'n ôl hyd nes y cwblheir yr Adolygiad o'r Trydydd Sector gan y Tîm Trawsnewid i Wneud Cynnydd, gan gyllido hynny drwy addasu cyllid ERW o ganlyniad i symudiadau rhwng grantiau, ac yn rhannol drwy ddefnyddio arian o'r cronfeydd cyffredinol.**

**6.2 Pennu taw £1,117.67 fyddai treth gyngor Band D am 2016/17 (sef cynnydd 3.85%).**

**6.3 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir ar 10fed Mawrth 2016 am unrhyw newid yn y Setliad Terfynol sydd i'w gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 2il Mawrth 2016, ac sydd i'w drafod ar 9fed Mawrth 2016, ac yn argymell unrhyw gamau gofynnol o ganlyniad i hynny.**

**6.4 Cadarnhau'r codiad cyflog o 1% a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer staff y Cyd-bwyllgor Trafod Telerau o 1af Ebrill 2016 ymlaen, a chymeradwyo codiad cyflog o 1% ar gyfer yr holl staff eraill (graddau cyflog staff nad ydynt yn addysgu) o 1af Ebrill 2016 ymlaen, a byddai'r codiad cyflog hwnnw'n cael ei gadarnhau fel rhan o unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a gytunir yn 2016 ac nid yn ychwanegol ato.**

## 7. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD 2016/17- 2020/21;

(NODER: Yr oedd y Cynghorwyr T. Davies, A. Lenny, S.E. Thomas, S.M. Allen, A. James a K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a bu iddynt aros yn y cyfarfod tra oedd dan sylw)

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 1af Chwefror, 2016 (gweler Cofnod 15), wedi ystyried y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) am y cyfnod rhwng 2016/17 a 2020/21, a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, ar ran y Bwrdd Gweithredol, am y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a adlewyrchai'r amcanion yn y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2015-2020 a oedd wedi ei mabwysiadu'n ddiweddar ac a oedd yn manylu ar flaenoriaethau a dyheadau strategol yr Awdurdod.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wybod i'r Cyngor fod y rhaglen gyfalaf yn gyfanswm o £226 miliwn dros y pum mlynedd, ac eglurodd taw'r nod oedd sicrhau bod buddsoddiad sylweddol mewn nifer o brosiectau allweddol er mwyn creu swyddi a gwella ansawdd bywyd pobl Sir Gaerfyrddin. Yn ôl yr amcangyfrif presennol yr oedd £133 miliwn ar gael gan y Cyngor Sir ar gyfer y rhaglen, ynghyd â £90 miliwn arall gan gyrff cyllido grantiau allanol. Fel oedd yn wir am y gyllideb refeniw (gweler cofnod 6 uchod), yr oedd y rhaglen gyfalaf wedi ei seilio ar y setliad dros dro a roddai £5.4 miliwn i'r Awdurdod ar ffurf benthyca â chymorth ynghyd â grant cyfalaf cyffredinol o £3.6 miliwn, y byddai'r ddau swm yn amodol ar gael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2016.

Amlinellodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yr amrywiaeth o brosiectau a gâi gymorth gan y rhaglen gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Gronfa Mentrau Gwledig, Datblygiad Ystadau Diwydiannol, Canolfan Llesiant Llanelli, Gwasanaeth Archifau Caerfyrddin, a chwrs rasio beiciau newydd. Er y byddai angen i'r rhaglen a'r modd y byddai'n cael ei chyllido gael eu monitro'n fanwl, dywedodd fod y rhaglen, fel yr oedd wedi ei chyflwyno, wedi ei chyllido'n llawn tan 2019/20 a bod diffyg bychan yn unig yn y flwyddyn olaf sef 2020/21.

Cyfeiriwyd at y cyfleuster gofal ychwanegol arfaethedig yn Llanelli ac at ddyfodol Cartref Gofal Preswyl Cae Maen. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r rhain. Gan gyfeirio at y cyfleuster gofal ychwanegol, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd fod trafodaethau cychwynnol ar waith a bod angen adlewyrchu anghenion pobl dros y 25 mlynedd nesaf. Nid oedd dim cynigion pendant ar hyn o bryd, ond byddai'r Bwrdd Gweithredol yn cael adroddiad wrth i'r cynlluniau gael eu datblygu. O ran dyfodol Cartref Gofal Preswyl Cae Maen, rhoddodd hi sicrwydd i'r Cyngor nad oedd dim cynlluniau i'w gau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**7.1 Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a'r cyllid, fel y'i nodwyd yn Atodiad B, a bod cyllideb 2016/2017 yn gyllideb bendant a chyllidebau 2017/2018 tan 2020/21 yn gyllidebau amhendant/dangosol (yn amodol ar benderfyniad 7.4),**

**7.2 Bod cyllideb 2020/21 yn cael ei hadolygu dros y flwyddyn i ddod er mwyn asesu'r diffyg yn y cyllid,**

**7.3 Bod y rhaglen yn cael ei hadolygu, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael yr hyn a ddisgwylir o ran y cyllid allanol a'r cyllid Cyngor Sir,**

**7.4 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir ar 10fed Mawrth 2016 am unrhyw newid yn**

**y Setliad Terfynol sydd i'w gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 2[il] Mawrth 2016, ac sydd i'w drafod ar 9[fed] Mawrth 2016, ac yn argymell unrhyw gamau gofynnol o ganlyniad i hynny.**

## 8. CYFRIF CYLLIDEB REFENIW TAI A LEFELAU RHENTI 2016/17;

(NODER: Yr oedd y Cynghorwyr T. Devichand a J. Edmunds wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a bu iddynt aros yn y cyfarfod tra oedd dan sylw)

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 1[af] Chwefror, 2016 (gweler Cofnod 16), wedi ystyried Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai am 2016/17 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn eu cylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, ar ran y Bwrdd Gweithredol, am gynigion Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai am 2016/17 gan adlewyrchu amcanion y Cynllun Busnes 30 mlynedd, sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ynghyd â'r Strategaeth Tai Fforddiadwy, a oedd i'w roi gerbron y Cyngor ym mis Mawrth 2016.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y buddsoddiad arfaethedig yn y cynllun busnes presennol wedi golygu bod Safon Tai Sir Gaerfyrddin wedi ei chyrraedd erbyn 2015, ac wedi darparu buddsoddiad i gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ac i gychwyn buddsoddi yn y Strategaeth Tai Fforddiadwy, sef £45 miliwn a £31 miliwn yn y drefn honno.

Atgoffodd y Cyngor fod y Cyfrif Refeniw Tai wedi ei ddiwygio'n sylweddol yn 2015/16 gan fod yr 11 o awdurdodau stoc dai yng Nghymru, gan gynnwys Sir Gaerfyrddin, wedi gadael y System Cymhorthdal Tai oedd wedi dyddio, gan roi rhagor o reolaeth iddynt dros eu stoc dai eu hunain. Yn achos Sir Gaerfyrddin, er ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gael benthyg £79 miliwn i gyllido'r gadael, yr oedd hefyd wedi golygu bod yr Awdurdod wedi gorffen talu £6.2 miliwn i'r Trysorlys yn flynyddol.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wybod i'r cyfarfod fod y Bwrdd Gweithredol yn cynnig bod rhenti tai yn codi 2.79% ar gyfartaledd yn unol â Pholisi Cysoni Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yr oedd y Cyngor wedi ei fabwysiadu'r llynedd, gan olygu ei bod yn ofynnol i'r awdurdod weithio tuag at gyrraedd y rhenti targed cyn pen pum mlynedd. Yr oedd cyfartaledd rhenti targed isel Sir Gaerfyrddin yn £78.08, a phe byddid yn derbyn argymhellion yr adroddiad byddai cyfartaledd y rhenti'n £78.73, sef ychydig yn fwy na'r targed isaf.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ei bod yn anodd, fel yr oedd bob amser wrth bennu'r rhenti, inni gael cydbwysedd rhwng effaith y codiad rhent ar denantiaid y Cyngor a'r angen i bennu rhenti'n unol â pholisi Llywodraeth Cymru, gan sicrhau ar yr un pryd bod y Cyngor yn gallu dal ati i lunio cynllun busnes cynaliadwy er mwyn camu ymlaen â Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy a'r Strategaeth Tai Fforddiadwy.

Wrth gynnig yr argymhellion gerbron y Cyngor, dywedodd fod y cynigion wedi cael cefnogaeth unfrydol y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn ei gyfarfod ar 15fed Ionawr, 2016.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**8.1 Codi cyfartaledd rhenti tai cyngor 2.97% (£2.27) y breswylfa bob wythnos, yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ynghylch Rhenti Tai Cymdeithasol (gan gynnwys camau cynnydd ar gyfer tenantiaid sydd ar lefel is na'r rhenti targed) gan y byddai hyn yn rhoi bod i Gynllun Busnes cynaliadwy ac yn dal i gyflawni a chynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy,**

**8.2 Parhau â'r camau cynnydd mwyaf posibl a ganiateir ar gyfer rhenti sy'n is na'r rhenti targed, hyd nes y cyrhaeddir y rhenti targed.**

**8.3 Cynyddu'r rhent am garejis i £8.75 yr wythnos (o £8.50 yn 2015/16) a'r rhent am seiliau garejis i £2.20 yr wythnos (o £2.15 yn 2015/16),**

**8.4 Rhoi'r Polisi ynghylch Taliadau am Wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid sy'n cael budd o wasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny,**

**8.5 Bod y taliadau am ddefnyddio gweithfeydd trin carthffosiaeth y Cyngor yn cynyddu 2.97%,**

**8.6 Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllid perthnasol ar gyfer 2016/17 a gwariant dangosol 2017/18 a 2018/19 fel y'u nodwyd yn Atodiad C,**

**8.7 Cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2016/19 (cyllidebau dangosol oedd rhai 2017/18 a 2018/19) fel y nodwyd yn Atodiad B.**

## 9. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2016-2017.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 1af Chwefror, 2016 (gweler Cofnod 9), wedi ystyried Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17 ac wedi gwneud dau argymhelliad, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wybod i'r cyfarfod ei bod yn ofynnol, yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys, yr oedd y Cyngor wedi ei fabwysiadu, i'r Cyngor gynnal Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yr oedd angen eu cymeradwyo'n flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oeddynt yn ymwneud â hi. Hefyd, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad D.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**9.1 Bod y Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo,**

**9.2 Bod y Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo.**

## 10. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y 1AF CHWEFROR, 2016.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y cyfarfod uchod.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**